# Cynghorydd Addysgol (Iaith Gymraeg)

## Manylion y Rôl

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Swydd:** | 221 | **Cyflog:** | £37,099 - £44,263 (Gradd 7) |
| **Patrwm Gwaith:** | Llawn Amser – 37 awr yr wythnos | **Hyd:** | Parhaol |
| **Lleoliad:** | Gweithio hybrid - gweithio dau ddiwrnod yr wythnos yn ein swyddfa yng Nghaerdydd | | |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | |
| **Dyddiad Cau :** | TBC | | |
| **Y Gymraeg:** | Ar gyfer y rôl hon, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. | | |

## Y Rôl

Mae hon yn rôl arbenigol yn ein tîm o Gynghorwyr Addysgol sydd wedi eu cymhwyso'n broffesiynol. Gan weithio'n ddwyieithog ledled nifer o sianeli cyswllt, prif bwrpas y rôl hon yw cefnogi myfyrwyr yng Nghymru i lwyddo wrth gyflawni eu nodau addysgol. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn ofynnol ar gyfer y rôl am y bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddarparu'r canllawiau addysgol cyfrwng Cymraeg fel rhan o ymrwymiad parhaus y Brifysgol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ledled Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at ddylunio a chyflwyno hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i'r staff sy'n ymwneud â myfyrwyr, i'r Darlithwyr Cyswllt yn ogystal ag aelodau eraill o staff academaidd. Bydd yn cefnogi'r broses o sicrhau ansawdd ein gwasanaeth iaith Gymraeg, gan roi egwyddorion Matrics IAG ar waith a chyfrannu at y broses o wneud gwelliannau parhaus i'r gwasanaethau yng Nghymru.

Ar ben hyn, bydd deiliad y swydd yn darparu arweinyddiaeth ar ddatblygu ystyriaethau'r iaith Gymraeg ar bolisïau neu brosesau sy'n ymwneud â myfyrwyr y Brifysgol, a datblygu ymwybyddiaeth arbenigol o'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n rhan o gwricwlwm y Brifysgol Agored. Bydd yn defnyddio'r wybodaeth arbenigol hon er mwyn llywio profiad digidol myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

ledled llwyfannau'r Brifysgol Agored, ac yn cefnogi'r broses o ddatblygu cyfathrebu dwyieithog y Brifysgol â myfyrwyr.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Rhoi arweiniad dwyieithog rhagweithiol ac ymatebol a chymorth addysgol cymhleth i fyfyrwyr i'w cefnogi i wneud penderfyniadau priodol ynghylch eu hastudiaethau, o ran eu hanghenion eu hunain a pholisïau'r Brifysgol Agored.
- Gweithredu fel y cyswllt uwchgyfeirio ar gyfer myfyrwyr a darpar fyfyrwyr sydd angen arweiniad a chymorth cymhleth, gan ddefnyddio barn ac arbenigedd proffesiynol i atgyfeirio at wasanaethau arbenigol lle bo angen.
- Ymddwyn fel arbenigwr pwnc a phwynt cyswllt ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn perthynas â pholisïau a phrosesau sy'n ymwneud â myfyrwyr, gan gyfrannu at ddatblygiad y staff eraill ac ymddwyn fel pwynt cyfeirio pan fo angen.
- Monitro a gwerthuso polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod ansawdd a gwelliannau'r gwasanaethau iaith Gymraeg yn parhau i fyfyrwyr ac ymholwyr.
- Cadw cofnod cywir o fanylion myfyrwyr ac ymholwyr a thrafodaethau ar systemau a chronfeydd data'r Brifysgol.
- Cyfrannu at ddatblygu gweithrediadau Recriwtio Myfyrwyr a Chymorth y Brifysgol gan ganolbwyntio ar hyrwyddo cyfraddau cadw, datblygiad a boddhad myfyrwyr yng Nghymru.
- Datblygu a chyflwyno hyfforddiant i Ddarlithwyr Cyswllt ac aelodau eraill o'r staff academaidd mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys deddfwriaeth yr Iaith Gymraeg, a pholisïau a gweithdrefnau.
- Cyfrannu at gynllunio, datblygu a gwerthuso gwybodaeth, deunyddiau a systemau ar-lein ac ysgrifenedig er mwyn diwallu anghenion addysgol a/neu anghenion gweithredol.
- Datblygu sgiliau a gwybodaeth yn barhaus i gynnal a gwella perfformiad personol, gan fabwysiadu arferion a gweithdrefnau busnes sy'n esblygu.

## Sgiliau a Phrofiad

**Addysg, cymwysterau a hyfforddiant**

**Hanfodol**:

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gradd a/neu gymhwyster proffesiynol addas, neu sgiliau a phrofiad cyfatebol.

**Dymunol:**

- NVQ 4 mewn Arweiniad neu barodrwydd i weithio tuag at gymhwyster proffesiynol mewn arweiniad os nad oes gennych y cymhwyster eisoes.
- Cymhwyster proffesiynol perthnasol a/neu dystiolaeth o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ym maes Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad.

**Gwybodaeth, gwaith a phrofiad perthnasol arall**

**Hanfodol**:

- O leiaf ddwy flynedd o brofiad o ddarparu cyngor ac arweiniad i grwpiau amrywiol o fyfyrwyr mewn addysg i oedolion, addysg bellach ac addysg uwch.
- Dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar lwyddiant myfyrwyr yng nghyd-destun dysgu rhan-amser o bell.
- Sgiliau cynghori a rhoi arweiniad sy'n helpu myfyrwyr i reoli eu hunain a gwneud eu penderfyniadau eu hunain.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig datblygedig iawn er mwyn cyfleu gwybodaeth gymhleth i gynulleidfaoedd amrywiol.
- Lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol yn cynnwys sgiliau cysylltu, rhwydweithio, cyd-drafod a gweithio mewn tîm.
- Y gallu i ddylunio, cyflwyno a gwerthuso hyfforddiant i amrywiaeth eang o staff.
- Profiad o ddefnyddio systemau TG yn effeithiol er mwyn rhoi arweiniad yn ddigidol.
- Sgiliau cynllunio a threfnu da yn cynnwys y gallu i weithio ar eich liwt eich hun a rheoli llwyth gwaith uchel.

**Dymunol:**

- Ymwybyddiaeth o'r amgylchedd allanol a pholisïau'r llywodraeth a'u heffaith bosibl ar y Brifysgol.

**Galluoedd a rhinweddau personol**

- Lefelau uchel o flaengaredd a pharodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am faterion a'u datrys.
- Y gallu i feddwl yn greadigol er mwyn datrys problemau cymhleth.
- Agwedd hyblyg a chadarnhaol at newid.
- Y gallu i gadw eich pen a bod yn synhwyrol wrth ymdrin â chleientiaid anodd.
- Cymhelliant ac ymrwymiad i welliant a datblygiad parhaus y gwasanaeth a'ch arfer arwain eich hun.
- Dealltwriaeth gadarn o arfer Cyfle Cyfartal ac ymrwymiad iddo.

## Gwybodaeth ychwanegol bwysig

Mae'r gwasanaeth ffôn rydym yn ei ddarparu ar gael rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio patrwm y cytunwyd arno rhwng 8.00am a 6.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gall achosion godi lle bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i oriau gwaith arferol o bryd i'w gilydd, gydag amser i ffwrdd yn gyfnewid am yr oriau a weithiwyd, fel y bo'n briodol.

Mae angen clustffonau i weithio yn effeithiol ar y ffôn ac ar gyfer cyfleusterau cynadledda cyfrifiadurol.

Mae'r tîm wrthi'n dilyn patrwm gweithio hybrid gyda disgwyl iddynt fynd i mewn i'n swyddfa yng Nghaerdydd o leiaf ddwywaith yr wythnos. Bydd rhaid i ddeiliad y swydd allu gweithio mewn amgylchedd swyddfa cynllun agored pan fydd llawer o bobl yn siarad ar y ffôn ar yr un pryd.

Efallai y bydd yn ofynnol i chi gyflawni dyletswyddau rhesymol eraill fel sy'n ofynnol o fewn natur dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ar yr amod y caiff unrhyw newidiadau parhaol i natur y swydd fel arfer eu hymgorffori yn y Disgrifiad Swydd mewn termau penodol.

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau academaidd a chymorth i fyfyrwyr ac ymholwyr ledled y wlad. **Caiff ei hariannu drwy incwm ffioedd myfyrwyr a thrwy gymorth gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac mae'n gwasanaethu dros 15,000 o fyfyrwyr.**

Mae mwy na 180 o aelodau o staff Y Brifysgol Agored, sy'n cyflawni swyddogaethau gwahanol, yn gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, gan gynnwys:

- Cyfarwyddwr Cymru a'i ddirprwyon sy'n gyfrifol am arwain a goruchwylio gwaith Y Brifysgol Agored yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan staff cyfadrannau yng Nghymru;
- Staff academaidd, rheolwyr a chydlynwyr o'n cyfadrannau a'n hysgolion, sy'n datblygu'r cwricwlwm, yn cefnogi ac yn cydlynu dysgu ac yn sicrhau bod yna safbwynt Cymreig yn natblygiadau academaidd Y Brifysgol;
- Ein tîm Recriwtio a Chynorthwyo Myfyrwyr (Cymru) sy'n gweithio er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a chymorth i fyfyrwyr ym mhob gweithgaredd yn llwyddiannus;
- Staff sy'n ymwneud â materion allanol, marchnata, ehangu mynediad ac ymgysylltu â chyflogwyr, sy'n ceisio tyfu ein hagenda cydweithio yng Nghymru a rhannu ein stori â'r cyhoedd yn ehangach;
- Y Tîm Rheoli Lleoliadau ledled y DU, sy'n gyfrifol am gaffael lleoliadau a gweithgareddau rheoli ar gyfer holl diwtorialau, arholiadau a chyfarfodydd ad hoc Y Brifysgol Agored yn y DU ac Ewrop Gyfandirol;
- Ein tîm o staff Gweithrediadau a Chymorth, sy'n sicrhau ein bod yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithiol o ddydd i ddydd.

Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i gynnal presenoldeb pwerus a gweladwy yng Nghymru, gan gydweithio'n agos â darparwyr a sefydliadau addysgol eraill er mwyn cynnig cyfleoedd addysg uwch rhan-amser o ansawdd uchel drwy ddysgu o bell. Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Cyllido i ddiwallu anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â'r Brifysgol wrth iddi drawsnewid ei gweithrediadau ledled y DU ac adnewyddu ei hymagwedd academaidd.  Mae staff a leolir yng Nghymru yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio a threfnu gweithrediadau ar raddfa fawr, gan ddefnyddio technoleg i gynhyrchu deunydd a gwybodaeth, a rheoli adnoddau yn effeithiol i gynhyrchu a darparu gwasanaethau'n brydlon. Mae'r holl staff yn canolbwyntio ar gynnal a gwella ein safonau uchel o gymorth i fyfyrwyr unigol ac mae ganddynt ethos gwasanaethau cwsmeriaid cryf.

Lleolir Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn 18 Heol y Tollty, Caerdydd. Mae'n cymryd pum munud ar droed i'w chyrraedd o orsafoedd trenau a bysiau Caerdydd Canolog. Oherwydd ei lleoliad yng nghanol y ddinas, nid oes lleoedd parcio ar gael ond mae nifer o feysydd parcio gerllaw. I gael rhagor o wybodaeth am Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Brifysgol, gweler gwefan Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn https://www5.open.ac.uk/wales/cy.